



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau
Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance
Services Committee

Adolygiad Gwasanaeth GCTMB
EMRTS Service Review
Briffio 10 | Briefing 10
Medi 2023 | September 2023



Diweddariad Cam 2 – Adborth y cyhoedd i Dechrau ym mis Hydref Phase 2 Update - Public Feedback to Start in October

Annwyl Randdeiliaid,

Yn bellach i'm ddiweddariad fis diwethaf, roeddwn i eisiau rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ail gam ymgysylltu â'r cyhoedd ar Adolygiad Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) a fydd yn digwydd rhwng 09 Hydref a 05 Tachwedd 2023 ar gyfer adborth gan y cyhoedd.

Bydd sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd Cam 2 yn cael eu cynnal o ddydd Iau 12 Hydref tan ddydd Gwener 20 Hydref yn gynhwysol trwy gyfuniad o sesiynau galw heibio anffurfiol, cyfarfodydd cyhoeddus personol - yn y Trallwng, Y Drenewydd, Machynlleth, Bangor a Phwllheli - a sesiynau rhithwir/ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Yn ogystal ag amserlen y sesiynau ymgysylltu, bydd y cyhoedd yn gallu darparu eu sylwadau o 09 Hydref tan 05 Tachwedd trwy ystod o ddulliau gan gynnwys post, ffôn, a ffurflenni ar-lein. Yn dilyn yr adborth a gasglwyd gennym trwy ystod o ddulliau yn ystod Cam 1, mae fy nhîm wedi bod yn gweithio ar ddatblygu opsiynau, ac mae modelu data cyflenwol hefyd wedi bod ar y gweill, yr wyf bellach am ei brofi gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yng Ngham 2.

Parhau....

Dear Stakeholder,

Further to my update last month I wanted to update you about the second phase of the public engagement on the Emergency Medical Retrieval and Transfer Service (EMRTS) Service Review that will be taking place between 09 October and 05 November, 2023 for public feedback.

Phase 2 public engagement sessions will run from Thursday 12 October until Friday 20 October inclusive through a combination of informal drop-in sessions, in-person public meetings - in Welshpool, Newtown, Machynlleth, Bangor and Pwllheli - and virtual/on-line sessions using Microsoft Teams.

As well as the engagement sessions timetable, the public will be able to provide their comments from 09 October until 05 November through a range of methods including post, phone, and online forms. Following the feedback we gathered through a range of methods during Phase 1, my team has been working on developing options, and complementary data modelling has also been underway, that I now want to test with the public and stakeholders in Phase 2.

Ctd...



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau
Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance
Services Committee

Adolygiad Gwasanaeth GCTMB EMRTS Service Review

Briffio 10 | Briefing 10

Rwyf bellach yn annog y cyhoedd a rhanddeiliaid i wneud sylwadau fel rhan o Gam 2 lle byddaf yn dal i wrando ar sylwadau cyhoeddus a rhanddeiliaid ar yr opsiynau a ddatblygwyd cyn gwneud penderfyniad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bu'n rhaid i ni ganolbwyntio'r digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar yr ardaloedd lle cafwyd y lefel uchaf o ddiddordeb a phresenoldeb yng Ngham 1 a dyna pam yr rydym yn cynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ardaloedd Byrddau Iechyd Powys a Betsi Cadwaladr, yn ogystal â chynnig sesiynau ar-lein i'r rhai a allai fod yn well ganddynt ar-lein neu na allant fynychu sesiynau wyneb yn wyneb.

Mae yna hefyd wasanaeth ateb dros y ffôn a ffurflen adborth ar-lein i roi cymaint o gyfle â phosibl i bobl wneud sylwadau ar yr hyn sy'n cael ei rannu.

Pwysleisiais ar ddiwedd Cam 1 nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o'r blaen ar y mater hwn ac mae'r ail gam hwn yn rhoi cyfle i mi rannu'r hyn a glywyd yng Ngham 1 a dangos sut mae hyn wedi'i gymhwyso i'r opsiynau a ddatblygwyd.

Parhau....

I am now encouraging the public and stakeholders to comment as part of Phase 2 where I will still be listening to public and stakeholder comments on the options developed before a decision is made later in the year.

We have had to focus the in-person engagement events on the areas where there has been the highest level of interest and attendance in Phase 1 which is why we are hosting in-person engagement sessions in Powys and Betsi Cadwaladr Health Board areas, as well as offering online sessions for those who may prefer online or be unable to attend in-person sessions.

There is also a telephone answer service and online feedback form to give people as much opportunity as possible to comment on what is being shared.

I stressed at the end of Phase 1 that no decision had previously been made on this issue and this second phase gives me an opportunity to share what has been heard in Phase 1 and demonstrate how this has been applied to the options developed.

Ctd...



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau
Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance
Services Committee

Adolygiad Gwasanaeth GCTMB EMRTS Service Review

Briffio 10 | Briefing 10

Rwyf wedi bod yn ddiolchgar am y ddeialog adeiladol a gawsom yng Ngham 1 ac rwy'n obeithiol y bydd Cam 2 yr un mor ddefnyddiol i mi wrth gyrraedd yr opsiwn a ffefrir y byddaf wedyn yn gallu ei argymhell yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys am eu penderfyniad.

Mae'r angerdd am y gwasanaeth ambiwlans awyr yn amlwg ac mae wedi bod yn amlwg bod awydd ar y cyd - rhwng y cyhoedd a rhanddeiliaid i gydweithio â'r Elusen ac EMRTS - i wneud y gwasanaeth partneriaeth gwych hwn hyd yn oed yn well i'n cymunedau yng Nghymru.

Fel bob amser, diolch yn ddiffuant iawn i chi am eich diddordeb parhaus ar y mater hwn.

Cofion gorau,

Stephen Harrhy
Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans

I have been grateful for the constructive dialogue that we had in Phase 1 and I'm hopeful that Phase 2 will be equally as helpful to me in arriving at a preferred option that I will then be able to recommend formally to the Emergency Ambulance Services Committee for their decision.

The passion for the air ambulance service is evident and it has been clear that there is a collective desire - between the public and stakeholders to work together with the Charity and EMRTS - to make this great partnership service even better for our communities in Wales.

As always, my sincere thanks for your continued interest on this matter.

Best regards,

Stephen Harrhy
Chief Ambulance Services Commissioner

Gellir darparu adborth yng Ngham 2 hyd at a chan gynnwys dydd Sul 05 Tachwedd drwy:

Feedback in Phase 2 can be provided up to and including Sunday 05 November via:

- **Post / Post:**

'Adborth GCTMB' PGAB / UGCC, Uned 1, Cwrt Charnwood, Heol Billingsley, Nantgarw, CF15 7QZ
'EMRTS Feedback', EASC/NCCU, Unit 1, Charnwood Court, Heol Billingsley, Nantgarw, CF15 7QZ

- **E-bost / E-mail:**

eascservicereviewqueries@wales.nhs.uk

- **Ffurflen Ymholiad Ar-lein / Online Query Form:**

<https://easc.nhs.wales/engagement/sdp/>

- **Ffôn / Phone answer line:**

01443 471520



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau
Ambiwlans Brys
Emergency Ambulance
Services Committee

Adolygiad Gwasanaeth GCTMB EMRTS Service Review

Briffio 10 | Briefing 10

Amserlen sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd
Cam 2 fel a ganlyn:

Phase 2 public engagement sessions
timetable as follows:

Dyddiad / Dates	Galw heibio / Drop-In	Cyfarfod Cyhoeddus / Public Meeting
	12:00 - 15:00	18:30 - 19:30
Dydd Iau 12 Hydref Thursday 12 October	Neuadd y Dref 42 Heol Lydan, Y Trallwng, SY21 7JQ Welshpool Town Hall 42 Broad St, Welshpool, SY21 7JQ	Ysgol Uwchradd y Trallwng Salop Rd, Y Trallwng, SY21 7RE Welshpool High School, Salop Rd, Welshpool, SY21 7RE
Dydd Gwener 13 Hydref Friday 13 October	Theatr Hafren - Campws y Drenewydd Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd SY16 4HU Theatr Hafren - Newtown Campus, Llanidloes Rd, Newtown, SY16 4HU	Ysgol Uwchradd Y Drenewydd Dolfor Road, Y Drenewydd, SY16 1JE. Newtown High School Dolfor Road, Newtown, SY16 1JE
Dydd Llun 16 Hyd Monday 16 October	Clwb Rygbi Machynlleth Maes y Plas, Lôn y Banc, Machynlleth, SY20 8EL Machynlleth Rugby Club Plas Grounds, Bank Lane, Machynlleth, SY20 8EL	Ysgol Bro Hyddgen Maes Glas, Machynlleth, SY20 8DR Ysgol Bro Hyddgen Greenfields, Machynlleth, SY20 8DR
Dydd Mawrth 17 Hyd Tuesday 17 October	Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1D Bangor City Council Offices Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1D	Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1D Bangor City Council Offices Ffordd Gwynedd, Bangor, LL57 1D
Dydd Mercher 18 Hyd Wednesday 18 October	Plas Heli Stad Ddiwydiannol Glan y Don, Yr Hafan, Pwllheli, LL53 5YT Plas Heli Glan y Don Industrial Estate, Yr Hafan, Pwllheli, LL53 5YT	Ysgol Glan y Môr Ffordd Caerdydd, Pwllheli, LL53 5NU Ysgol Glan y Môr Cardiff Road, Pwllheli, LL53 5NU
Dydd Iau 19 Hydref / Thursday 19 October		
Cyfarfod Cyhoeddus Rhithwir Virtual Meeting /Online (MS Teams) 18:30 - 19:30		
Dydd Gwener 20 Hydref / Friday 20 October		
Cyfarfod Cyhoeddus Rhithwir Virtual Meeting /Online (MS Teams) 13:00 - 14:00		